**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**194 - Rheoliadau Gwastraff a Thrwyddedu Amgylcheddol etc (Swyddogaethau Deddfwriaethol a Diwygio etc) (Ymadael â’r UE) 2020 (Rheoliadau 2020)**
*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 20 Hydref 2020*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| Yn destun sifftio yn Senedd y DU? | Nac ydy |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amh |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amh |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amh |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 75 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | SICM(5)37 |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amh |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**
Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8(1) ac 8C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Crynodeb**
Mae'r Rheoliadau hyn:

• Yn diwygio nifer o offerynnau sy’n ymwneud ag Ymadael â’r UE i sicrhau y byddant yn parhau’n addas i’r diben ar ddiwedd y Cyfnod Pontio ac yn gwneud neu’n dirymu diwygiadau sy’n ymwneud ag Ymadael â’r UE i ychydig ddeddfwriaeth ddiweddar yr UE a ddaw’n gyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir (a hefyd gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth ddomestig at ddibenion tebyg).

• Yn gwneud rhai diwygiadau technegol i offerynnau Ymadael â’r UE sydd eu hangen o ganlyniad i Brotocol Gogledd Iwerddon.

• Yn trosglwyddo rhai o swyddogaethau'r Comisiwn Ewropeaidd i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinyddiaethau Datganoledig.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi gwneud y sylwadau a ganlyn mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru, dyddiedig 22 Hydref 2020, am effaith y Rheoliadau hyn:

• Mae'r Rheoliadau hyn yn creu swyddogaethau y gall Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU eu harfer ar yr un pryd. O dan Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006"), ni chaiff y Senedd ddileu nac addasu swyddogaethau cydredol o'r fath (i'r graddau y maent yn cael eu harfer gan Weinidogion y DU) heb gydsyniad Llywodraeth y DU. Mae datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn dweud bod Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU mewn perthynas â Gorchymyn adran 109 i ddiwygio Atodlen 7B o Ddeddf 2006 er mwyn negyddu'r cyfyngiad posibl ar gymhwysedd Senedd Cymru yn y dyfodol.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

**Cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10**
Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron y Senedd ar 27 Hydref 2020, ar y sail bod y Rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (yn yr achos hwn, adran 62A o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990).

Mewn llythyr at y Pwyllgor, dyddiedig 27 Hydref 2020, dywedodd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig fod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol wedi'i osod, ond ni soniodd a fyddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynnig yn y Cyfarfod Llawn i drafod y Memorandwm.